Gwas Neidr

Prydferthwch bywyd / Gweledigaeth newydd

Yng ngwaelod y cae, ger yr adwy, roedd pwll o ddŵr. Yno, roedd gwahanol greaduriaid y dŵr yn byw. Yn eu plith roedd cyw gwas y neidr. Doedd cyw gwas neidr ddim yn hoff iawn o'r penbyliaid. Roedden nhw'n nofio ymhob man yn y pwll. Cyn iddyn nhw ddeor o'r wyau duon roedd y pwll yn le distaw iawn. Dim ond ambell chwilen ddu a sgorpion y dŵr oedd yn cadw cwmni i gyw gwas y neidr. Bodlonai ef ar gerdded yn araf ar waelod y pwll. Weithiau, byddai'n cuddio yn y mwd a dim ond ei ben yn y golwg. Gyda'i dafod ryfedd byddai'n gallu dal ambell bryfyn oedd yn pasio heibio. Roedd wedi bod ar waelod y pwll ers diwedd yr haf. Roedd y gaeaf wedi mynd heibio a'r gwanwyn wedi dod yn ei dro. Dyna pam roedd cannoedd o benbyliaid duon ymhob man. Cofiwch chi, roedd digonedd o benbyliaid yn golygu y byddai digon o fwyd ar gael. Fel roedd y gwanwyn yn rhoi heibio i'r haf roedd y penbyliaid yn magu coesau ac yn gadael y pwll. Dechreuai cyw gwas y neidr aflonyddu hefyd. Roedd yr awch am fwyd wedi mynd. Roedd yn aniddig iawn ar waelod y pwll. Roedd y tywydd yn cynhesu a'r haul crasboeth yn cynhesu'r dŵr. Ar lan y dŵr roedd lili'r dŵr yn mwynhau gwres yr haul.

Roedd yr awydd i ddod allan o'r dwr yn mynd yn fwy ac yn fwy. Braf oedd gweld y penbyliaid wedi troi'n lyffantod bychain yn aros yn llonydd ar y dail ar ochr y pwll.

Un bore, a'r haul wedi codi ers tro, cerddodd cyw gwas neidr yn araf tuag at goesyn un o'r planhigion oedd yn tyfu allan o'r dwr. Yn hamddenol, crafangodd i fyny coesyn y planhigyn. Ymhen dim roedd allan o'r dŵr. Teimlai'r haul yn danbaid ar ei gefn. Arhosodd yn llonydd ar goesyn y planhigyn. Yno bu am gyfnod hir yn mwynhau'r haul.

Roedd yr haul ar ei anterth erbyn hyn. Dechreuodd deimlo'n wahanol rywsut. Yn ara, dechreuodd croen ei gefn hollti. Allan o'r hollt daeth creadur newydd sbon. Roedd hwn mor

wahanol. Roedd ganddo adenydd tryloyw. Pedair ohonyn nhw. Roedd ei gorff hir yn ddu a melyn. Roedd ganddo ddau lygaid enfawr ar ochr ei ben. Allan o'r plisgyn brown roedd gwas neidr hardd wedi ymddatod.
Arhosodd ar y planhigyn i sychu ei adenydd. Ymhen awr neu ddwy roedd yn barod i hedfan. Cododd ar ei adain ac fe welodd yr olygfa orau welodd erioed. Roedd y lliwiau mor llachar. Wedi arfer efo lliwiau tywyll oedd o yng nghanol y pwll ond roedd y gwyrdd ar y coed a'r caeau mor wahanol. Dechreuodd hedfan i fyny ac i lawr, ar hyd ac ar led, dros y caeau a'r coed. Roedd pob man mor wahanol! Doedd gwas neidr ddim yn blino o gwbl ar yr olygfa newydd hon.
Pan oedd o'n byw ar waelod y pwll, undonog iawn oedd bywyd iddo ond erbyn hyn roedd ei fywyd i gyd mor wahanol. Pwy fuase'n meddwl y gallai ei fyd newid mor ddramatig.

O Dduw, pan fydda i'n teimlo'n drist a difywyd wnei di f'atgoffa fod yma fyd hapus a phrydferth. Amen.

- Sut fywyd oedd bywyd y pwll i gyw gwas neidr?
- Fedrwch chi feddwl am greaduriaid eraill sy'n trawsnewid yn gyfangwbl?